

# Partneriaeth Talysarn & Nantlle



Bwletin Ward Talysarn

Ebrill - Mehefin 2008

## CLWB 'SIMPLY CREATIVE HOBBIES CLUB' YN DADORCHUDDIO'R MURLUN

Yr oedd dydd Mercher 2ail o Orffennaf yn ddiwrnod pwysig a hirddisgwyl, lle fu i aelodau'r clwb ymgynyll er mwyn paratoi erbyn y digwyddiad y prynhawn hwnnw, yn trefnu'r lleoliad a'r lluniaeth, y gwaith arddangos a'r ffotograffiaeth.

Erbyn 2 o'r gloch y prynhawn roedd torf wedi ymgynyll yn barod i dderbyn ein gwestai arbennig sef Miss Josie Russell. Yna, wedi i blant Ysgol Baladeuly gyrraedd fe ddechreuodd y gweithdrefnau. Yn siarad ar ran y clwb fe groesawodd Christine Matthews y gynulleidfa a rhoi disgrifiad o sut wnaeth y murlun ddatblygu. Rhoddwyd teyrnged i bawb a fu'n cynorthwyo ac yn cefnogi'r fenter. Mynegodd hefyd y cariad yr oedd gan y grŵp tuag at Ddyffryn Nantlle, gyda'r gobaith bod hyn yn cael ei fynegi yn y gwaith fydd yn cael ei ddangos. Sonwyd yn arbennig am blant Ysgol Baladeuly'n oedd yn bresennol, a'r ffaith fod Josie, sydd yn gyn-ddisgybl o'r ysgol, wedi rhoi o'i hamser i fod gyda ni. Wedi i Josie dynnu'r gorchudd oddi ar y murlun fe gafodd ei chyflwyno gyda blodau gan un o blant yr ysgol.



Yn olaf fe gyflwynodd Hazel Turner, aelod hyna'r clwb, flodau i Hazel Carpenter a oedd wedi ein helpu drwy annog y grŵp a rhoi cymorth proffesiynol i ni. Gorffennyd y p'nawn gyda bwffe, gwin a phaned. Casglwyd hyd at £80 a fydd yn cael ei rannu rhwng Ysgol Baladeuly'n ag elusen Josie sef "Nets for Josie" a fydd yn rhoi rhwydi mosgito i blant bach anghenus yn Nigeria.

Fe fydd y murlun yn cael ei arddangos yn barhaol yn Llys Llywelyn er mwyn i bawb gael ei fwynhau. Os ydych chi awydd ei weld yn breifat yna cysylltwch â Sally Barnes ar 01286 882511. Mae'n werth ei weld felly ewch draw i Lys Llywelyn. Mae lluniau/cardiau cyfarchion sydd yn dangos y murlun hefyd ar gael i'w prynu.

Mae'r clwb, a sefydlwyd yn 2005, yn cyfarfod bob pythefnos ar ddydd Mercher yn Llys Llywelyn ac fe groesawn unrhyw un, o bob oedran neu ryw.

AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â  
Canolfan Cymdeithasol Talysarn

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

Ffôn: 01286 881103

E-bost: [dafydd.partneriaethtalysarnnant@btopenworld.com](mailto:dafydd.partneriaethtalysarnnant@btopenworld.com)



communities first cymunedau yn gyntaf



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# Partneriaeth Talysarn & Nantlle

Byddwn yn rhannu ein diddordebau mewn awyrgylch braf – a gwneud beth yr ydych CHI eisiau ei wneud – beth bynnag fydd hynny. Ar hyn o bryd yr ydym yn gwneud dillad i Uned Babanod Gynamserol Ysbyty Gwynedd, ond pwy a wŷr beth fyddwn yn ei wneud nesaf! Felly, cysylltwch â'n Cadeirydd ar 01286 882511, neu ysgrifennydd ar 01286 880733 am fwy o wybodaeth.

## TRIGONOS

Yn dilyn ymgynghoriad Planning For Real® yn yr ardal yn ddiweddar dangoswyd llawer o ddiddordeb yn yr amgylchedd, bwyd ac ynni. Mae Trigonos wedi bod yn gweithio ar y pethau hyn ers peth amser bellach. Fe ddechreuon drwy werthu ein llysiâu o'r sied, ac yn 2007 dechreuwyd beth sydd yn awr yn Farchnad Lleol lwyddiannus yng Nghanolfan Talysarn bob prynhawn Gwener. Ym mis Tachwedd 2007 fe gomisiynwyd ein gwresogydd coed a'r boeler dŵr a chael gwared o'r holl wresogion olew a rhan fwyaf o'r nwy yr ydym yn ei ddefnyddio. Mae croeso i unrhyw un â diddordeb yn y boeler ddod i edrych o gwmpas. Drwy gymeryd y camau yma fe enillon ni ddwy wobwr Twristiaeth Eryri Werdd 2008: BUSNES TWRISTIAETH GYNALIADWY GORAU a GWOBR GARBON ISEL.

Yn y flwyddyn i ddod ein bwriad yw cydweithio gydag asiantaethau er mwyn cael rhannu profiadau. Mae nifer o gamau wedi eu llunio sef:

- Cydweithio gyda Grŵp Amgylchedd Talysarn a Nantlle ar ddigwyddiad yn edrych ar sut caiff ynni adnewyddadwy gyrraedd mwy o bobl y dyffryn.
- Ehangu'r garddwriaeth i dyfu mwy o lysiau a ffrwythau ffres er mwyn eu gwerthu'n lleol ac er mwyn cegin Trigonos.
- Rhoi un cae drosodd i "ddôl bio-amrywiaeth", lle a fydd yn caniatáu i fywyd gwyllt a phlanhigion cynhenid i ffynnu, a hefyd ei agor i bobl lleol.

Mae gwneud hyn i gyd yn golygu llawer iawn o waith a byddwn yn falch iawn o gefnogaeth gan wirfoddolwyr a phobl ifanc ar brofiad gwaith. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu am gadw mewn cysylltiad gyda'r rhaglen, cysylltwch â Trigonos ym Mhlas Baladeulyn.

## BLODEUWEDD

Unwaith eto eleni, mae'r grŵp wedi bod yn brysur iawn, yn plannu planhigion tu allan i swyddfa Cymunedau'n Gyntaf, Talysarn, ynghyd â mainc a oedd yn rodd hael gan y Cyngorwr Dilwyn Lloyd er cof am ei daid. Mae'r fainc yn boblogaidd iawn gyda pawb sy'n disgwyl am y bws! Yr ydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos hefo Ysgol Talysarn, gyda'r plant yn plannu i fyny i ddeg casgen o amgylch byngalos Gloddfa Glai Talysarn. Hefyd, rydym wedi bod yn helpu'r plant i blannu llysiâu yng ngardd ffrwythau a llysiâu'r ysgol. Mae'r plant yn barod wedi cael blasu'r cynnyrch, yn enwedig yn mwynhau'r pus, radis siapaneaidd a riwbob ffres o'r ardd. Bydd llawer mwy o gynnyrch yn barod erbyn fydd y plant yn ôl yn yr ysgol fis Medi. (Efallai gyda'r holl law rydym wedi ei gael yr haf yma y dyliwn ni dyfu reis mewn 'paddy field' y flwyddyn nesaf!!)

Wrth gydweithio gyda plant Ysgol Talysarn mae cynlluniau ymhell ar y blaen i sefydlu Meithrinfa Coed Cymunedol a phlannu mwy o goed yn y gymuned yn yr hydref. Gobeithiwn hyfforddi'r plant sut i dyfu coed o hadyn er mwyn creu cyflenwad gynaliadwy o goed ifanc er mwyn blynyddoedd i ddod gyda Meithrinfa Coed Cyngor Gwynedd ym Mharc Glynllifon yn paratoi'r hyfforddiant a'r medrusrwydd.

# Partneriaeth Talysarn & Nantlle

Mae Blodeuwedd hefyd wedi bod yn cydweithio ar gystadleuaeth i blant a phobl ifanc wneud poster dim ysbwriel, ac wrth weld rhai o'r posteri mae'n mynd i fod yn anodd iawn i'r beirniaid ddewis enillwyr. Yr ydym hefyd yn gefnogol iawn o gael dyddiau glanhau yn y gymuned. Os oes rhywun â diddordeb i ddysgu mwy am weithgareddau Blodeuwedd, gwirfoddoli neu ymuno â'r grŵp yna cysylltwch â Tom Coleman ar 01286 882354 neu ebostiwch [tom@cymrul.net](mailto:tom@cymrul.net)

## HYFFORDDIANT LLEOL

Efallai tyd'r haf ddim yn amser i'w dreulio i mewn yn cael hyfforddiant, ond dyma'r amser i feddwl beth allwn wneud yn ystod yr hydref a'r gaeaf. Mae nifer wedi argymhell yr angen darparu cyrsiau hyfforddiant yn lleol ac mae'r Bartneriaeth yn awyddus i drefnu sesiynau os oes galw. Er mwyn sicrhau ein bod yn trefnu hyfforddiant priodol buaswn yn ddiolchgar os y gallwch roi wybod i ni pa gyrsiau byddwch chi yn barod i fynd arnynt, ac anfon y wybodaeth yn ôl i swyddfa'r Bartneriaeth yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

## CLWB CERDDED CYMRAEG Y NANT

Rhaid manteisio ar yr amser yma o'r flwyddyn, a be well na mynd am dro yn yr awyr iach, cael sgwrs a mwynhau yr hyn sy'n naturiol yn ein hardal. Mae Clwb Cerdded Cymraeg y Nant wedi trefnu nifer o deithiau lleol yn ddiweddar ac yn awyddus i fwy ymuno yn y teithiau sy'n cael eu trefnu yn y dyfodol agos.

Os am ymuno ar ein taith nesaf cysylltwch ag Eleri am fwy o wybodaeth neu gwyliwch allan am y posteri gwybodaeth ac ymunwch ar y diwrnod. Croeso i bawb.

## TALYSARN CELTS

Llongyfarchiadau i dîm Talysarn Celts am ennill cystadleuaeth Cwpan Safeflue. Chwaraewyd y gêm yn Ffordd Farrar Bangor, ac o bosib hon oedd y gêm olaf i gael ei chwarae ar y maes yma cyn i glwb pêl-droed Dinas Bangor symud i'w cartref newydd. Buddugoliaeth o 2 – 1 i'r Celts oedd y canlyniad yn erbyn tîm profiadol y Felinheli.

Mae llawer o ddiolch i Alan Thomas am ei waith a'i amser gyda phobl ifanc yr ardal, a da yw gweld llwyddiant. Unrhyw un â diddordeb ymarfer gyda'r Celts yn barod am y tymor nesaf i gysylltu gyda Alan Thomas.

## O LÔN EIFION I NANTLLE

Mae trafodaeth ar y gweill i geisio agor llwybr o Lôn Eifion Penygroes i Nantlle. Tynwyd sylw at hyn gan y gymuned yn ymgynghoriad Planning For Real ac mae Partneriaeth Talysarn a Nantlle, gyda swyddogion Cyngor Gwynedd yn edrych ar y posibilïadau o ddatblygu'r cynllun. Byddai ymestyn Lôn Eifion i fyny'r Dyffryn i Nantlle yn creu llwybr diogel i gerddwyr, beicwyr, a phosib, merlota. Rhan gyntaf o'r cynllun fyddai agor y ffordd o Benygroes i Dalysarn ac mae swyddogion o Gyngor Gwynedd yn llunio briff er mwyn prisio'r gwaith.

# Partneriaeth Talysarn & Nantlle

## CYFRIFIADURON I BAWB

Yn ystod y misoedd diwethaf mae Canolfan Cymdeithasol Talysarn a Llys Llywelyn Nantlle wedi cynnal nifer o sesiynau i drigolion yr ardal alw i mewn i ddefnyddio cyfrifiaduron y ddwy ganolfan. Pwrpas hyn oedd rhoi cyfle i unrhyw un gael mynediad at gyfrifiaduron. Roedd y sesiynau yn cynnig defnydd cyffredinol, cyfle i ymarfer yr hyn a ddysgwyd mewn sesiynau hyfforddiant, a chymorth ymarferol gan berson lleol i adnabod y dechnoleg diweddaraf yn well. Am fwy o wybodaeth am y sesiynau yma cysylltwch â'r canolfanau.

## GLODDFA GLAI

Mae'r gwaith o adnewyddu y llwybr o gwmpas Gloddfa Glai bellach wedi ei gwblhau. Yn ogystal mae nifer o offer a meinciau wedi eu gosod er mwyn i bobl gael seibiant i fwynhau'r amgylchedd naturiol sydd o'n hamgylch ac i blant gael chwarae. Un o'r problemau a gysylltwyd gyda Gloddfa Glai yn rhaglen Planning For Real oedd baw ci. Gan ein bod yn awr wedi cael gwyneb newydd ar y llwybr a fyddai posib i berchnogion cŵn fod yn fwy cyfrifol a sicrhau nad yw eu cŵn yn baeddu. Diolch.

## DYDDIADAU CYFARFOD Y BARTNERIAETH

<b>Medi 1</b>	-	<b>Canolfan Cymdeithasol Talysarn</b>
<b>Hydref 6</b>	-	<b>Llys Llywelyn Nantlle</b>
<b>Tachwedd 3</b>	-	<b>Canolfan Cymdeithasol Talysarn</b>
<b>Rhagfyr 1</b>	-	<b>Llys Llywelyn Nantlle</b>

## BLWCH SYNIADAU

Os oes gennych chi syniadau yr hoffech i'r Bartneriaeth eu hystyried, rhowch nhw yn y blwch yma a'i ddanfon at Dafydd Williams yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn.

Enw: .....

Cyfeiriad: .....

Syniadau: .....

.....

.....

.....

**AM FWY O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â**  
**Canolfan Cymdeithasol Talysarn**

Ffordd Yr Orsaf . Talysarn . Gwynedd . LL54 6HL

**Ffôn:** 01286 881103

**E-bost:** dafydd.partneriaethtalysarnanant@btopenworld.com